

Ymddiriedolaethau Natur **Cymru**

Wildlife Trusts **Wales**

# *O Leol* i **Fyd-eang**

Y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a'r hyn y mae angen i Gymru ei wneud i'w roi ar waith

# Y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang

Bydd unfed cyfarfod ar bymtheg Cynhadledd y Partïon (COP 16) i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) yn cael ei gynnal yn Cali, Colombia o 21 Hydref i 1 Tachwedd 2024[1].

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn gytuniad byd-eang hanfodol bwysig. Mae bioamrywiaeth y byd yn gostwng yn gyflym ac mae angen gweithredu ar frys i atal chwalfa ecolegol. Mae Adolygiad Dasgupta 2021 o Economeg Bioamrywiaeth, a gomisiynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, yn rhybuddio bod "ein hymgysylltiad anghynaladwy â byd natur yn **peryglu ffyniant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol**"[2]. Canfu adroddiad diweddar y gallai diraddio natur achosi colled o 12% i GDP y DU[3] a phwysleisiodd yr angen i gydnabod a mynd i'r afael â'r risgiau hyn er mwyn cryfhau cadernid ariannol y DU. Yn yr un modd â newid yn yr hinsawdd, mae angen ymagwedd fyd-eang i fynd i'r afael â'r broblem.

Yn 2010, cytunwyd ar Gynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth gydag 20 targed (targedau Aichi) i'w cyflawni erbyn 2020[4]. Roedd gweithredu'r targedau hyn yn peri siom. Ar lefel fyd-eang, ni chyflawnwyd yr un o'r targedau yn llawn ac yn y DU, parhaodd natur i ddirywio[5].

Yn dilyn hyn, cytunwyd ar Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd yng Nghynhadledd ddiwethaf y Partïon (COP 15), ym Montreal, Canada, Rhagfyr 2022. Cyflwynodd Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal gynllun beiddgar newydd gyda'r nod penodol o atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth erbyn 2030. Ymhlith elfennau allweddol y Fframwaith mae pedwar nod ar gyfer 2050:

Mae ecosystemau'n cael eu hadfer a difodiant yn cael ei atal — **Nod A**

Defnyddir bioamrywiaeth mewn modd cynaliadwy — **Nod B**

Mae adnoddau genetig yn cael eu diogelu a'u rhannu'n deg — **Nod C**

Rhoddir adnoddau digonol ar waith i weithredu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang — **Nod D**

Er mwyn rhoi'r byd ar y trywydd iawn i gyflawni'r nodau hyn, mae'r Fframwaith yn nodi 23 o dargedau byd-eang sy'n canolbwyntio ar weithredu i'w cwblhau erbyn 2030. Efallai y mwyaf adnabyddus o'r rhain yw targed tri – gwarchod a rheoli o leiaf 30% o dir, dyfroedd mewndirol a moroedd erbyn 2030 (y cyfeirir ato'n aml fel "30x30"). Mae angen i lywodraethau cenedlaethol gychwyn ar y camau gweithredu a nodir ym mhob targed ar unwaith a'u cwblhau erbyn diwedd y degawd (gweler Ffigur 1).



**Ffigwr 1:** Themâu a Thargedau Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming - Montreal

| Thema | Targed | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lleihau bygythiadau i fioamrywiaeth | 1 Cynllunio gofodol i leihau newid o ran defnydd tir a môr | 2 Adfer ecosystemau diraddiedig | 3 Amddiffyn a gwarchod ardaloedd | 4 Atal difodiant rhywogaethau a lleihau'r risg o ddifodiant |
| Lleihau bygythiadau i fioamrywiaeth | 5 Cynaeafu a masnachu rhywogaethau gwyllt | 6 Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol | 7 Lleihau effaith negyddol llygredd ar fioamrywiaeth | 8 Lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd |
| Diwallu anghenion pobl trwy ddefnydd cynaliadwy a rhannu buddion | 9 Rheoli rhywogaethau gwyllt | 10 Rheolir amaethyddiaeth, dyframaeth, pysgodfeydd a choedwigoedd mewn modd cynaliadwy | 11 Adfer, cynnal a gwella cyfraniadau natur i bobl, gan gynnwys swyddogaethau a gwasanaethau ecosystemau | 12 Mannau glas a gwyrdd trefol |
| Diwallu anghenion pobl trwy ddefnydd cynaliadwy a rhannu buddion | 13 Rhannu adnoddau genetig a gwybodaeth am ddilyniant digidol mewn modd teg ac ecwitïol | | | |
| Datrysiadau ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio | | 14 Integreiddio bioamrywiaeth a'i gwerthoedd lluosog mewn polisïau, rheoliadau, prosesau cynllunio a datblygu | 15 Integreiddio mesurau cyfreithiol, gweinyddol neu bolisi o fewn sefydliadau busnes ac ariannol | 16 Annog a galluogi dewisiadau defnydd cynaliadwy |
| Datrysiadau ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio | 17 Sefydlu mesurau bioddiogelwch, cryfhau'r capasiti ar eu cyfer a'u rhoi ar waith | 18 Nodi a dileu, diddymu neu ddiwygio cymhellion yn raddol, gan gynnwys cymorthdaliadau | 19 Cynyddu'n sylweddol ac yn raddol lefel yr adnoddau ariannol | 20 Cryfhau adeiladu capasiti a chydweithrediad gwyddonol technegol |
| Datrysiadau ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio | 21 Sicrhau bod data a gwybodaeth yn hygyrch i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, i ymarferwyr ac i'r cyhoedd | 22 Parchu hawliau a diwylliannau pobloedd frodorol a chymunedau lleol | 23 Sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau | **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang** |

Y COP16 sydd ar ddod fydd y cyfle cyntaf i'r byd bwyso a mesur monitro a chynnydd tuag at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, ac i Lywodraeth Cymru ddangos ei bwriadau ar gyfer gweithredu beiddgar ac uchelgeisiol dros fyd natur gartref ac ar y llwyfan rhyngwladol.

Mae Cymru wedi cynnal Plymio Dwfn ar Fioamrywiaeth i archwilio sut y gallai Cymru gyrraedd ei hymrwymiad 30 wrth 30. Er bod cynllunio a gweithredu ar y cyd bydd angen i dystiolaeth o'r broses hon gael ei hategu gan gamau gweithredu nawr neu bydd Cymru'n parhau yn un o'r gwledydd sydd wedi'i disbyddu fwyaf o ran natur yn y byd.

Mae'r COP16 sydd ar ddod yn gyfle i Lywodraeth newydd Cymru feddwl ar lefel byd-eang wrth iddi weithredu'n lleol; rhoi'r lefel uchaf posibl o uchelgais ar waith i roi'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar waith yn genedlaethol.

Nawr yw'r amser i symud o eiriau ysbrydoledig i weithredu uchelgeisiol ar lawr gwlad. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynllun gweithredu beiddgar cyn COP16 i ddangos ei bod yn gwneud ei rhan ac i ailsefydlu ei rôl fel arweinydd amgylcheddol byd-eang.

Mae'r nodau a'r targedau newydd yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn mynd ymhell y tu hwnt i uchelgais y rhai y cytunwyd arnynt yn 2010, gyda ffocws i'w groesawu ar blygu cromlin colled byd natur, yn hytrach nag ar atal ei ddirywiad yn unig. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ble mae angen gweithredu ar frys i sicrhau adferiad byd natur erbyn diwedd y degawd o dan y tri phennawd targed o **leihau bygythiadau i fioamrywiaeth; diwallu anghenion pobl trwy ddefnydd cynaliadwy a rhannu buddion, ac offer ac atebion ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio.**

Llywodraeth y DU sy'n bennaf gyfrifol am gyflawni ymrwymiadau'r DU fel Parti i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Fodd bynnag, gan fod polisi amgylcheddol yn swyddogaeth ddatganoledig, mae pedair gwlad y DU i gyd yn gyfrifol am ddatblygu eu dulliau eu hunain o gyflawni ymrwymiadau i fioamrywiaeth.

# Lleihau bygythiadau i fioamrywiaeth

## Targedau

| | |
|---|---|
| **1** | **Cynllunio a rheoli pob ardal i leihau colledion bioamrywiaeth** |
| **2** | **Adfer 30% o'r holl ecosystemau diraddiedig** |
| **3** | **Gwarchod 30% o dir, o ddyfroedd ac o foroedd** |
| **4** | **Atal difodiant rhywogaethau, amddiffyn amrywiaeth enetig a rheoli gwrthdaro rhwng pobl a bywyd gwyllt** |
| **5** | **Sicrhau cynaeafu a masnachu rhywogaethau gwyllt sy'n gynaliadwy, yn ddiogel ac yn gyfreithlon** |
| **6** | **Lleihau cyflwyno rhywogaethau goresgynnol estron gan 50% a lleihau eu heffaith** |
| **7** | **Lleihau llygredd i lefelau nad ydynt yn niweidiol i fioamrywiaeth** |
| **8** | **Lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ar fioamrywiaeth a meithrin gwydnwch** |

Dros y 50 mlynedd diwethaf, mae byd natur ledled Cymru wedi cael ei niweidio a'i ddiraddio, gyda bioamrywiaeth yn lleihau'n helaeth ddegawd ar ôl degawd. Dangosodd Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023 fod niferoedd rhywogaethau wedi gostwng ar gyfartaledd 19% ers 1970, gyda gostyngiadau sydd hyd yn oed yn fwy i'w gweld mewn poblogaethau o bryfed. Mae hefyd yn adrodd bod bron i un o bob chwe rhywogaeth bellach dan fygythiad difodiant yng Nghymru.

Arferion amaethyddol anghynaladwy a newid yn yr hinsawdd sydd wedi cael yr effaith fwyaf, er bod llygredd ac effeithiau datblygiad yn ffactor cynyddol mewn gostyngiadau.

Mae miliynau yn llai o adar, mamaliaid a physgod yn byw yn ein hwybren, yn ein hafonydd, ac yn ein moroedd, golyga hyn fod byd natur bellach yn ei chael hi'n anodd darparu'r gwasanaethau a gymerwn yn ganiataol: peillio cnydau, amsugno dŵr llifogydd, dal a storio carbon a dŵr glân. Mae'n bosibl gwrthdroi'r gostyngiad hwn. Mae'r wybodaeth a'r sgiliau'n bodoli i adfer byd natur, ond mae angen ewyllys wleidyddol gryf i wireddu hyn. Mae angen gweithredu ym mhobman – i reoli'r safleoedd sydd eisoes wedi'u dynodi am eu gwerth natur a'u dwyn yn ôl i gyflwr da, i adfer cynefinoedd diraddiedig ac i reoli'r dirwedd ehangach – gwledig, trefol a morol – fel y gall natur ffynnu ochr yn ochr â defnydd tir a môr arall.


## Cynllunio gofodol

**Targedau** 1 3 4 8

Mae gofod yng Nghymru yn gyfyngedig ac mae llawer o ddyheadau cystadleuol ar gyfer sut y dylid defnyddio ein tiroedd a'n moroedd. Mae angen dull gofodol, strategol cenedlaethol o gynllunio'r defnydd o'r ddau er mwyn lleihau ac osgoi gwrthdaro. Mae angen i'r dull hwn fod yn gwbl drawsadrannol er mwyn sicrhau bod polisïau ar gyfer cynllunio, trafnidiaeth, ynni, bwyd a natur i gyd wedi'u halinio.

**Camau Gweithredu**

- Yng Nghymru, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau gofodol cenedlaethol cynhwysfawr, trawsadrannol ar gyfer tir a môr:
    - Fframwaith Defnydd Tir gyda chysylltiadau cadarn â'r broses gynllunio, sy'n dangos sut a ble y bydd 30% o dir yn cael ei warchod a'i adfer yn effeithiol erbyn 2030, ac sy'n cynnwys addasu a lliniaru ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Dylai gynnwys fframwaith trosfwaol i arwain blaenoriaethu ar gyfer newid y defnydd o dir a chynllun gofodol cenedlaethol sy'n nodi'n fras y cyfyngiadau a'r cyfleoedd ar gyfer defnydd tir.
    - Cynllun gofodol morol sy'n defnyddio dull ecosystem i gydbwyso anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Dylai integreiddio pob gweithgarwch er mwyn osgoi niwed anfwriadol a gwneud y mwyaf o'r buddion a ddaw o ecosystemau morol iach. Yn benodol, mae'n rhaid i genhadaeth Llywodraeth y DU i ddarparu pŵer glân erbyn 2030 gael ei chyflawni mewn ffordd natur-bositif, gan osgoi niwed i fioamrywiaeth forol; ni allwn ddatrys un argyfwng byd-eang drwy wneud un arall yn waeth.
- Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i system gynllunio Cymru yn y dyfodol gyflawni ar gyfer natur, hinsawdd a phobl. Mae'n rhaid cynnal amddiffyniadau ar gyfer natur yn y system gynllunio.
- Dylai'r system gynllunio hefyd gefnogi datblygiad Strategaethau Adfer Natur Lleol cynhwysfawr, sy'n nodi blaenoriaethau lleol o ran defnyddio tir trwy gonsensws a chyda'i gilydd maent yn cwrdd â thargedau cenedlaethol drwy'r Fframwaith Defnydd Tir. Mae angen gweithredu'r ddyletswydd i ystyried Strategaethau Adfer Natur Lleol yn dda trwy ganllawiau priodol i sicrhau bod datblygu lleol yn osgoi safleoedd natur allweddol.



## Cyflawni 30x30 ac adfer rhywogaethau

**Targedau** 2 3 4 7

Mae angen mwy o le ar fyd natur i'w hadfer a'i gysylltu er mwyn caniatáu lle i rywogaethau addasu i hinsawdd sy'n newid. Mae'r wyddoniaeth yn dangos, er mwyn troi'r llanw ar ddirywiad byd natur, bod angen i ni warchod a rheoli o leiaf 30% o diroedd, dyfroedd croyw a chefnforoedd erbyn 2030 (30x30).

30x30 yw'r ymrwymiad cadwraeth mwyaf a welodd y byd erioed. Hyd yn hyn, mae mwy na 190 o wledydd wedi ymrwymo i gyrraedd y nod byd-eang. Nid yw'r Plymio Dwfn ar Fioamrywiaeth wedi dod i ben ond mae angen i ganfyddiadau'r gwaith hwn ganolbwyntio ar lwybrau y gellir eu cyflawni. Mae angen adolygiad annibynnol i osod llwybrau adfer byd natur hyd at 2030.

Mae amcangyfrifon cychwynnol yn dangos mai dim ond 11% o dir sy'n cael ei warchod fel SoDdGA ond nid yw hanner y safleoedd hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol, awgrymir y dylai 5% o'r tir fod yn fan cychwyn. Yn ein moroedd dim ond 3% o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd â'u holl nodweddion mewn rheolaeth ffafriol.

**Camau Gweithredu**

- Mae angen prosiect cyflawni trawslywodraethol i ddiogelu ac adfer o leiaf 30% o dir a môr ar gyfer natur erbyn 2030, yn unol â safonau rhyngwladol. Dylid cyflwyno dynodiad Llain Wyllt newydd i warchod safleoedd sy'n adfer ar gyfer byd natur er mwyn cyflymu'r cynnydd tuag at y targed. Dyma gyfle i gipio dychymyg y cyhoedd trwy gysylltu'r offer presennol i wneud mwy o le i fyd natur o dan un dynodiad newydd i sicrhau newid cadarnhaol i bobl a natur.
- Dylid gwella a chwblhau'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) i gynnwys yr holl feysydd sy'n bodloni'r meini prawf, nid detholiad cynrychioliadol yn unig. Mae'n rhaid cynnal a chadw safleoedd a'u rheoli'n effeithiol, gan wneud cynnydd clir tuag at sicrhau bod 75% o safleoedd mewn cyflwr da erbyn 2042.
- Ar y môr, mae'n rhaid dynodi ardaloedd morol gwarchodedig llawn sy'n gwahardd gweithgareddau niweidiol, er mwyn galluogi cynefinoedd morol i adfer. Mae'n rhaid atal difrod i Ardaloedd Morol Gwarchodedig, trwy ragdybiaeth yn erbyn datblygu o fewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys ffermydd gwynt ar y môr ac is-ddeddfau sy'n gwahardd arferion dinistriol megis treillrwydo môr-waelodol.
- Mae dros wyth deg y cant o Gymru yn cael ei ffermio; mae'r ffordd y caiff y tir hwn ei reoli yn cael effaith enfawr ar fioamrywiaeth. Dylid cynyddu'r cyllid ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ddiwallu'r angen ac i ddyrannu cyfran fwy i'r Opsiynau a'r haenau Cydweithredol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd nodi pa gyfraniad y bydd y cynlluniau hyn yn ei wneud i 30x30, i adfer rhywogaethau ac i dargedau amgylcheddol eraill.
- Gwarchod a thrwyddedu ailgyflwyno afancod gwyllt yn gyfreithiol.
- Codi'r uchelgais i alluogi cyllid gwyrdd cyfanrwydd uchel newydd yng Nghymru i gefnogi adferiad byd natur.

## Mynd i'r afael â llygredd

**Targed 7**

Mae carthffosiaeth, dŵr gwastraff a llygredd amaethyddol i gyd yn mygu ein hafonydd a'r bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt. Mae'n broblem sy'n effeithio ar bron pob un o'n hafonydd, ein llynnoedd a'n haberoedd. Mae moroedd Cymru yn cael eu gwenwyno gan ollyngiadau carthion ac mae llygredd afonydd yn draenio iddynt yn ddyddiol. Dylai Llywodraeth newydd Cymru achub ar y cyfle i ailosod hyn yn glir.

Yng Nghymru nid gwaith carthffosiaeth yn unig sy'n achosi llygredd afonydd. Dŵr ffo amaethyddol sy'n peri'r llygredd mwyaf i afonydd fel Afon Gwy yn bennaf. Mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn drwy gryfhau Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Yn y dirwedd amaethyddol, mae diffyg rheoleiddio sylfaenol i ddiogelu ansawdd dŵr ac mae'r gofyniad i gyflwyno Cynllun Gweithredu Cenedlaethol newydd ar Ddefnydd Cynaliadwy o Blaladdwyr fwy na chwe blynedd yn hwyr. Mae toriadau i asiantaethau rheoleiddio a chyllidebau diogelu'r amgylchedd dros y degawd diwethaf yn golygu mai anaml y caiff rheoliadau eu gorfodi. Mae mesurau i fynd i'r afael â llygredd yn aml yn dameidiog ac nid ydynt wedi'u lleoli yn y mannau mwyaf effeithiol. Mae angen targedu gwelliannau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn cynrychioli'r defnydd gorau o arian trethdalwyr.

**Camau Gweithredu**

- Gorfodi'r gyfraith – gwrthdroi'r duedd o danseilio a darparu rhy ychydig o adnoddau i'n cyrff gorfodi, darparu cefnogaeth wleidyddol gref i gyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru ac, wrth ffurfio corff gwarchod amgylchedd Cymreig newydd, sicrhau eu bod yn gallu monitro ac archwilio cyrff dŵr a gorfodi cosbau pan fydd y gyfraith yn cael ei thorri. .
- Haneru llygredd maetholion erbyn 2030 drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) i ariannu:
  - darparu byffro gwell (gall pantiau sylweddol o laswellt, blodau gwyllt, llwyni a choed ddal llygredd fferm, darparu cysgod i amddiffyn rhag straen hinsawdd a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt),
  - mesurau sy'n cronni'r rhannau organig hanfodol o'r pridd, fel organebau byw a ffyngau, sy'n helpu i wella strwythur y pridd i sicrhau ei fod yn dal mwy o ddŵr, a
  - chreu Cyllidebau Maetholion Dalgylch i sicrhau bod gostyngiadau'n cael eu targedu'n ecolegol.
- Rhoi polisi ar waith sy'n hyrwyddo adfer afonydd ar raddfa fawr, ac sy'n cefnogi'r rhwydwaith o bartneriaethau dalgylch afon lleol i gyflawni hyn.
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol credadwy ar gyfer Defnydd Cynaliadwy o Blaladdwyr sy'n cyflawni targed meintiol uchelgeisiol ar gyfer lleihau plaladdwyr yn y DU i leihau'r defnydd cyffredinol o blaladdwyr cemegol a'r risg ohonynt erbyn 2030.

## Gweithredu dros natur a hinsawdd

**Targed 8**

Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn cydblethu. Mae'r argyfwng hinsawdd yn gyrru dirywiad byd natur ond ar hyn o bryd natur yw'r unig fecanwaith cost-effeithiol o dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer, megis trwy ecosystemau coetir, mawndiroedd iach a charbon glas. Mae'r golled barhaus o fywyd gwyllt a'i gynefinoedd yn golygu nad oes gan Gymru ddigon o adnoddau i ddal carbon, i leihau ein hallyriadau ac i addasu i newid. Mae'n rhaid i weithredu ar yr hinsawdd gael ei baru ag ymdrechion penderfynol i atgyweirio ein hecosystemau toredig.

Mae mawndiroedd y DU, sy'n storio dros dri biliwn tunnell o garbon, wedi diraddio'n sylweddol ac yn rhyddhau carbon yn hytrach na'i ddal. Byddai parhau ag ymdrechion adfer yn atal y golled hon ac yn hybu poblogaethau o fywyd gwyllt prin. Bydd creu coetir parhaol hefyd yn cloi carbon ond mae'n rhaid ei gynllunio'n ofalus i sicrhau'r buddion mwyaf ac i osgoi niweidio cynefinoedd eraill. Mae deunydd organig pridd yn storio mwy o garbon nag unrhyw system dir arall ond mae ffermio dwys yn ei roi dan fygythiad. Gall cylchdroi cnydau, cnydau gorchuddio a llai o aredig helpu i adfer yr ased sylfaenol hwn.

Carbon glas yw'r term a roddir i garbon sy'n cael ei storio mewn cynefinoedd morol ac arfordirol – yng Nghymru mae'r rhain yn cynnwys gwelyau morwellt, morfeydd heli a gwaddodion cefnfor. Mae llawer iawn o garbon yn cael ei atafaelu yn y swbstrad a phlanhigion yn y cynefinoedd hyn. Dylai hwn fod dan glo am ganrifoedd, ond rydym yn colli ardaloedd mawr bob blwyddyn. Mae gan warchod ac adfer cynefinoedd o'r fath fanteision cymdeithasol ac economaidd y tu hwnt i ddal carbon, er enghraifft darparu cynefin meithrin ar gyfer pysgod o bwysigrwydd masnachol a helpu i liniaru llifogydd ac erydu arfordirol.

**Camau Gweithredu**

- Diogelu ac adfer mawndiroedd – ceisio gwaharddiad ar werthu mawn gyda Llywodraeth y DU. Adfer pob un o'r 90,000 hectar o fawndir yng Nghymru trwy SFS a chyllid gwyrdd.
- Adolygu a gwella cyfraniad natur at gyflawni sero net: ehangu cymorth ar gyfer cyflawni targedau adfer coetiroedd a mawndiroedd, nodi, monitro a diogelu storfeydd carbon glas ac ehangu cwmpas i ystyried rôl ehangach cynefinoedd sy'n dal llawer o garbon.
- Monitro ac adrodd ar fuddsoddiad y sector cyhoeddus a phreifat mewn camau addasu i ddiogelu natur a datrysiadau seiliedig ar natur a chau'r bwlch ymaddasu ar gyfer byd natur. Gwreiddio addasu a lliniaru hinsawdd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gefnogi ffermwyr i addasu i newid yn yr hinsawdd, i leihau allyriadau ac i ddiogelu priddoedd.



# Diwallu anghenion pobl trwy ddefnydd cynaliadwy a rhannu buddion

## Targedau

- **9** **Rheoli rhywogaethau gwyllt mewn modd cynaliadwy er budd pobl**
- **10** **Gwella bioamrywiaeth a chynaliadwyedd mewn amaethyddiaeth, dyframaethu, pysgodfeydd a choedwigaeth**
- **11** **Adfer, cynnal a gwella cyfraniadau natur i bobl**
- **12** **Gwella mannau gwyrdd a chynllunio trefol ar gyfer lles dynol a bioamrywiaeth**
- **13** **Cynyddu rhannu buddion a ddaw o adnoddau genetig, gwybodaeth dilyniant digidol a gwybodaeth draddodiadol**

## Cefnogi ffermio sy'n dda i natur

**Targedau 9 10 18**

Mae ein system cynhyrchu bwyd byd-eang bresennol yn dinistrio systemau naturiol ein planed, ar y tir ac ar y môr. Mae'n hysbys bod amaethyddiaeth ddwys yng Nghymru yn un o brif achosion colli natur a llygredd afonydd, ond mae hefyd yn methu ein ffermwyr y mae effeithiau cynyddol diriaethol hinsawdd sy'n newid, bod yn agored i gadwyni cyflenwi anweddol a phwysau chwyddiant ar fewnbynnau amaethyddol yn effeithio arnynt.

Dinistrio natur ac effeithiau newid yn yr hinsawdd hefyd yw'r bygythiadau mwyaf i gynhyrchu bwyd yng Nghymru. Mae cynhyrchu bwyd yn dibynnu ar briddoedd iach, dŵr glân, a gwydnwch i newid yn yr hinsawdd. Bydd adfer natur ar ffermydd yn dod â llawer o fanteision, nid yn unig i fywyd gwyllt ond hefyd i ffermwyr. Gall gweithio gyda natur gynyddu elw a gwydnwch ffermydd, gall leihau costau a chynnal neu hyd yn oed wella cynnyrch. Mae llawer o ffermwyr a rheolwyr tir wedi mynd i drafferth fawr i gefnogi bywyd gwyllt heb gael eu gwobrwyo'n ddigonol. Mae gwerth termau real y gyllideb ar gyfer ffermio amgylcheddol eisoes wedi gostwng gyda thaliadau llai yng Nghynllun Cynefin Cymru. Mae peidio â buddsoddi'n iawn yn golygu bod pawb ar eu colled.

**Camau Gweithredu**

- Er mwyn gwrthdroi dirywiad byd natur erbyn 2030 a sicrhau diogelwch bwyd hirdymor Cymru, dylid cynyddu'r gyllideb i gefnogi ffermio sy'n dda i natur i o leiaf £600 miliwn y flwyddyn. Gellir cyflawni mwy o uchelgais amgylcheddol hefyd trwy flaenoriaethu'r Opsiynau a'r Haenau cydweithredol yn yr SFS a chlustnodi 50-60% o'r gyllideb i'w hariannu.

- Er mwyn lleihau llygredd a hybu bioamrywiaeth, mae'n rhaid gwella arfer da yn gyffredinol. Yn hytrach na dibynnu ar fesurau gwirfoddol, dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo arferion sylfaenol, megis lleiafswm byfferau dŵr a rheoli pridd, mewn rheoliadau. Byddai hyn yn sicrhau bod pob fferm yn cyfrannu at warchod yr amgylchedd sylfaenol.

- Mae'n rhaid i fuddsoddiad mewn amaethyddiaeth gynaliadwy hefyd gael ei arwain gan gyngor a hwyluso annibynnol o ansawdd uchel. Gall hyn helpu ffermwyr i roi arferion ar waith yn gywir i gyrraedd targedau natur a hinsawdd a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.

## Galluogi cymunedau iach

**Targedu 11 12**

Er mwyn gwerthfawrogi ac amddiffyn natur, yn gyntaf mae angen iddo fod yn bwysig i bobl, ac er mwyn iddo fod yn bwysig iddynt mae'n rhaid iddynt gael profiad ohono. I fod yn wirioneddol drawsnewidiol, mae'n rhaid iddo gael ei ymgorffori ym mhrofiadau beunyddiol pobl, nid ar deithiau arbennig yn unig. Mae natur yn helpu pobl i fyw bywydau iachach, ond yng Nghymru, nid yw'r mynediad at y buddion hyn yn deg.

Mae tystiolaeth yn dangos bod mynediad at fyd natur yn gysylltiedig â gwelliannau mawr mewn iechyd corfforol a meddyliol ac yn lleihau anghydraddoldeb iechyd[7]. Mae'n hanfodol bod pawb yn gallu manteisio ar y buddion hyn, ond mae mwy na thraean o'r boblogaeth yn methu â chael mynediad i fannau gwyrdd ger eu cartrefi[8]. Ar hyn o bryd mae plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig naw gwaith yn llai tebygol o gael mynediad i fannau gwyrdd na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig[9].

Mae cyswllt â byd natur yn dechrau cael ei ragnodi fel rhan o'r ateb i broblemau iechyd, drwy 'ragnodi cymdeithasol'[10]. Mae'n hanfodol bod digon o fannau gwyrdd naturiol o fewn 15 munud ar droed i roi'r cyfle hwn i bobl. Byddai'r manteision iechyd yn deillio o hyn yn golygu arbedion sylweddol i'r GIG. Yn 2009 amcangyfrifodd Natural England, pe bai gan bawb yn Lloegr fynediad i fannau gwyrdd, y byddai'r manteision iechyd canlyniadol yn golygu y gallai'r GIG arbed £2.1 biliwn[11] y flwyddyn. Wedi'i ddiweddaru ar gyfer chwyddiant byddai'r ffigur hwnnw bellach yn £3 biliwn, mae angen inni ailadrodd hyn yng Nghymru.

**Camau Gweithredu**

- Gwneud safonau seilwaith gwyrdd yn orfodol. Dylai pob datblygiad newydd ddarparu un rhan o dair o orchudd bioamrywiol a sicrhau bod pawb 15 munud ar droed neu ar olwyn o ofod natur. Dylai Awdurdodau Lleol gynllunio sut i ôl-osod digon o fannau gwyrdd ar gyfer cymunedau presennol trwy ddefnyddio Strategaethau Adfer Natur Lleol.

- Deddfu ar gyfer yr hawl i bobl gael mynediad i amgylchedd iach, naturiol.

- Galluogi pob cymuned i gael mynediad at fuddion iechyd a lles byd natur trwy ymrwymo i gronfa draws-lywodraethol i integreiddio rhagnodi cymdeithasol i iechyd a gofal cymdeithasol a thyfu gwasanaethau iechyd a rhaglenni lles yn y gymuned.

- Mae'n rhaid i bob plentyn fod â'r hawl i ddysgu ym myd natur ac am fyd natur. Mae dysgu yn yr awyr agored o fudd i iechyd meddwl plant ac yn datblygu gwerthfawrogiad dyfnach o'r amgylchedd a'u rôl wrth ei amddiffyn. Mae adeiladu cysylltiad parhaol â natur yn ystod plentyndod yn siapio ein bywydau fel oedolion a'n hagweddau tuag at fywyd gwyllt, newid hinsawdd a sut rydym yn dewis byw. Gall canllawiau statudol newydd i ddarparu dysgu yn yr awyr agored i bawb sicrhau bod ein hysgolion yn cefnogi plant hapusach, mwy hyderus sy'n deall eu heffaith ar ein byd naturiol.

# Offer ac atebion ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio

## Targedau

- **14** **Integreiddio bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel**
- **15** **Mae busnesau i asesu, i ddatgelu ac i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth ac effeithiau negyddol**
- **16** **Galluogi dewisiadau defnydd cynaliadwy i leihau gwastraff a gorddefnyddio**
- **17** **Cryfhau bioddiogelwch a dosbarthu buddion biotechnoleg**
- **18** **Lleihau cymhellion niweidiol o leiaf $500 biliwn y flwyddyn a chynyddu cymhellion cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth**
- **19** **Ysgogi $200 biliwn y flwyddyn ar gyfer bioamrywiaeth o bob ffynhonnell, gan gynnwys $30 biliwn trwy gyllid rhyngwladol**
- **20** **Cryfhau meithrin gallu, trosglwyddo technoleg, a chydweithrediad gwyddonol a thechnegol ar gyfer bioamrywiaeth**
- **21** **Sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn hygyrch i arwain gweithredu ar fioamrywiaeth**
- **22** **Sicrhau cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau a mynediad at gyfiawnder a gwybodaeth sy'n ymwneud â bioamrywiaeth i bawb**
- **23** **Sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac ymagwedd sy'n ymateb i'r rhywiau ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth**

## Integreiddio natur i wneud penderfyniadau

**Targed 14**

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth gynaliadwyedd sy'n arwain y byd ar ffurf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Gymru gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau iach gweithredol. Mae dull hirdymor Llywodraeth Cymru o ddiogelu a gwella'r amgylchedd wedi'i gyflwyno yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hon yn gosod fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel egwyddor graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'r un Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol, a ganfu'r adroddiad hwnnw mai dirywiad mawr yw'r duedd gyffredinol o ran bioamrywiaeth yng Nghymru, rhywbeth sy'n cyd-fynd â thueddiadau dros y byd. O ran y môr, mae Cymru wedi methu â chyflawni Statws Amgylcheddol Da[12] ar gyfer moroedd erbyn 31 Rhagfyr 2020, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau'r Strategaeth Forol (2010).

Er y gosodwyd targedau byd-eang o'r blaen i atal a gwrthdroi dirywiad byd natur, daeth y 5ed Rhagolwg Bioamrywiaeth Byd-eang a gyhoeddwyd yn 2021 i'r casgliad bod y DU – a gweddill y byd – wedi methu â chyflawni'r targedau hyn. Nid yw hyd yn oed SoDdGA safleoedd mwyaf gwarchodedig Cymru yn cael eu rheoli'n effeithiol ac nid yw 80% yn cyflawni statws cadwraeth ffafriol.

Mae gan Gymru fwy o fôr na thir, ac er bod ardal sylweddol o foroedd Cymru wedi'i dynodi'n Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs), mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn parhau i fod mewn cyflwr anffafriol neu anhysbys. Nid yw'r MPA gyfan wedi'i gwarchod ond yn hytrach nodweddion o fewn yr ardal. Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod maint na chyflwr y nodweddion hyn ond mae CNC bellach yn buddsoddi yn hyn a dylem roi darlun llawnach yn 2025. O dan Reoliadau'r Strategaeth Forol (2010) mae'n ofynnol i Gymru gyflawni Statws Amgylcheddol Da i foroedd erbyn 31 Rhagfyr 2020, rhywbeth y methodd â'i gyflawni.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau 30 wrth 30 ar dir mae angen rheoli pob SoDdGA yn effeithiol a dynodi 3 i 4% pellach. Bydd hyn yn dod â Chymru hanner y ffordd. Er mwyn cyflawni 15% pellach mae angen rheoli meysydd eraill megis tir eNGO, ystâd gyhoeddus a pherchnogaeth sympathetig bosibl fel tir yr MoD er budd natur. Mae tirweddau dynodedig (Parciau a Thirweddau Cenedlaethol) yn broblematig gan fod y tir mewn perchnogaeth breifat.

Ar y môr, dylid dynodi safleoedd gwarchodedig ar draws 10% o foroedd Cymru yn 'llawn' (dim gweithgareddau echdynnol na dinistriol) ac 20% arall yn 'uchel' (dim ond gweithgareddau echdynnu ysgafn a ganiateir), yng nghyd-destun rhwydweithiau ehangach sy'n gydlynol yn ecolegol.

**Camau Gweithredu**

- Comisiynu ymchwiliad annibynnol i lwybrau Natur 2030. Dechrau alinio cyllidebau trawsadrannol i gyflawni canfyddiadau.

- Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried bwrw ymlaen â'r argymhellion yn Adolygiad Dasgupta i integreiddio bioamrywiaeth i wneud penderfyniadau am bolisïau economaidd ac ariannol.



### Busnes a chyllid

**Targedu** 15 19

Gyda chynllun gweithredu clir ar gyfer rhoi'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar waith trwy'r NBSAP, bydd y Deyrnas Unedig mewn sefyllfa dda i ddangos arweinyddiaeth uchelgeisiol yn nhrafodaethau CoP16 a sicrhau y gall busnesau gymryd camau cadarnhaol i ymgorffori'r amgylchedd yn eu penderfyniadau.

Mae'r economi yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i natur. Mae dadansoddiad a wnaed gan Fforwm Economaidd y Byd yn amcangyfrif bod hanner yr holl weithgarwch economaidd yn gymharol ddibynnol neu'n ddibynnol iawn ar natur[13], gyda cholli bioamrywiaeth yn un o'r pedwar prif risg i'r economi byd-eang dros y 10 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r swm a werir ar weithgareddau sy'n niweidio natur yn dal i fod ymhell y tu hwnt i'n gwariant ar ei adfer.

Ceir cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd buddsoddi yn ein hasedau naturiol ac o'r cyfleoedd y mae economi sy'n seiliedig ar natur yn eu cyflwyno. Led led y byd, bydd y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur yn sbardun allweddol ar gyfer arloesi sy'n gadarnhaol o ran natur mewn cyllid. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r bwlch o ran cyllid natur ac yn cynyddu cyllid preifat a chyhoeddus trwy Strategaeth Cyllid Gwyrdd newydd.

**Camau Gweithredu**

- Yn dilyn llwyddiant y Tasglu ar Ddatgeliad Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd, dylid gwneud adrodd i'r Tasglu ar Ddatgeliad Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur yn orfodol i gwmnïau mawr a sefydliadau ariannol er mwyn gyrru newid a dod yn fframwaith lle mae busnesau yn adrodd ar eu dibyniaethau, eu heffeithiau, eu risgiau a'u cyfleoedd.
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod safonau cadarn gyda llywodraethu cryf i yrru'r cyfleoedd a'r hyder mewn marchnadoedd ecosystemau gonestrwydd uchel. Dylai Cymru gefnogi Llywodraeth y DU i gyflwyno cynllun clir i gyflawni ei chyfran deg o ymrwymiad y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang i ysgogi 20 biliwn o ddoleri'r flwyddyn erbyn 2025 mewn cyllid bioamrywiaeth rhyngwladol ar gyfer gwledydd sy'n datblygu.



# Cyfeirnodau


1. https://www.cbd.int/conferences/2024
2. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/957629/Dasgupta_Review_-_Headline_Messages.pdf
3. Ranger, N. & Alvarez, J. 2024. Gallai diraddio natur ar lefel byd-eang achosi colled o 12% i Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU. https://www.eci.ox.ac.uk/news/ nature-degradation-could-cause-12-loss-uk-gdp
4. https://www.cbd.int/sp
5. https://stateofnature.org.uk/
6. https://www.gov.uk/government/news/new-deal-to-protect-nature-agreed-at-cop15
7. Michael Marmot, Jessica Allen, Tammy Boyce, Peter Goldblatt, Joanna Morrison (2020) Health Equity in England: The Marmot Review ten years on. Llundain: Institute of Health Equity
8. https://www.gov.uk/government/publications/state-of-the-environment/the-state-of-the-environment-the-urban-environment
9. National Children's Bureau. Greater Expectations: raising aspirations for our children. Llundain: National Children's Bureau; 2013. https://www.ncb.org.uk/sites/default/files/uploads/files/Greater%2520Expectations.pdf
10. Mae ein tystiolaeth yn dangos, am bob 1.1 miliwn o bobl a gyrhaeddir, bod rhaglenni rhagnodi gwyrdd yr Ymddiriedolaethau Natur yn arbed £100 miliwn. Gweler The Wildlife Trusts Natural Health Services: 23JUN_ Health_Report_FINAL (1).pdf (wildlifetrusts.org)
11. Improving access to green space: 2020 review (publishing.service.gov.uk)
12. Mae'r Llywodraeth yn parhau i beidio â bod ar y trywydd iawn i gyflawni ei huchelgeisiau amgylcheddol i raddau helaeth, yn ôl yr OEP mewn adroddiad cynnydd blynyddol | Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ( theoep.org.uk )
13. Fforwm Economaidd y Byd. (2020). Nature Risk Rising: Why the Crisis Engulfing Nature Matters for Business and the Economy. Genefa, Y Swistir.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn ffederasiwn o 47 o elusennau, 46 o Ymddiriedolaethau Natur unigol ac yn elusen ganolog, Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur. Gyda'n gilydd mae gennym fwy na 900,000 o aelodau, 39,000 o wirfoddolwyr a 3,600 o staff ledled y DU. Rydym yn rhannu gweledigaeth o natur wrth adfer, gyda bywyd gwyllt helaeth, amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tirweddau mwy gwyllt lle mae pobl a natur yn ffynnu.

Mae Ymddiriedolaethau Natur yn gofalu am - ac wedi adfer - rhai o'r lleoedd mwyaf arbennig ar gyfer bywyd gwyllt yn y DU. Gyda'n gilydd rydym yn rheoli mwy na 2,400 o warchodfeydd natur, yn gweithredu 123 o ganolfannau ymwelwyr ac addysg ac yn berchen ar 29 o ffermydd sy'n gweithio. Rydym yn cynnal ymchwil, rydym yn eiriol o blaid bywyd gwyllt a lleoedd gwyllt dan fygythiad, ac rydym yn helpu pobl i gael mynediad at natur.

Rydym yn gweithio gyda busnesau sydd wedi ymrwymo i fod yn gadarnhaol am natur ac yn cymryd camau i helpu i adfer 30% o'r tir a'r moroedd ar gyfer natur erbyn 2030.

Ymddiriedolaethau Natur
**Cymru**
Wildlife Trusts
**Wales**


Ymddiriedolaethau Natur Cymru

info@wtwales.org
wtwales.org

@WildlifeTrusts
@wildlifetrusts
@thewildlifetrusts
@the-wildlife-trusts



Images: rainforest with Wildlife Trusts signage © Ben Porter; pine marten © Mark Hamblin/2020VISION; ladybird © Jon Hawkins; basking shark © Alex Mustard/2020VISION; holding a common frog © Alan Price; gannets © Peter Cairns/2020VISION.



Copyright The Royal Society of Wildlife Trusts © 2024.
All Rights Reserved. Registered Charity No 207238.